# Cyngor Cymuned Ganllwyd

## Hydref 12eg 2022

**Presennol**

Cyng. S.Roberts, S.P.Jones, D.Morris, C.Edwards, Gavin Jones, C.Dixon G.Hughes.

**Ymddiheuriad** -Cyng D.Griffiths

**Cofnodion Medi 2022.**

Cynnigodd D.Morris fod y cofnodion yn gywir a eiliwyd gan Cyng S.Roberts.

**Datgan diddordeb mewn unrhyw fater a drafodir yn ystod y cyfarfod.**

Dim.

**Materion yn codi.**

Giat Green Lane- Adroddodd Cyng Edwards nad oedd y gwaith trin y giat sydd wedi malu wedi ei gwblhau. Clerc i gysylltu a swyddogion CNC a'r Parc i drafod y sefyllfa.

Mae'r mater hyn yn mynd ymlaen ers rhai misoedd sydd yn siom I'r cyngor.

Cyfarfod gyda asiantaethau eraill i drafod pryderon yn ymwneud a llwybrau cyhoeddus lleol- mae'r Clerc wedi derbyn e-bost gan Mr Evans (Cyngor Gwynedd) yn cadarnhau ei fod am fynychu cyfarfod y cyngor yn mis Tachwedd.

Roedd Nicol Maysmor (CNC) angen manylion am y problemau yn ymwneud a'r llwybrau, bydd y clerc yn gyrru'r manylion i Nicola cyn y cyfarfod nesaf.

Ffordd Cefndeuddwr, Maesgwm,Hermon- nid oedd y cyngor cymuned wedi derbyn unrhyw wybodaeth gan Cyngor Gwynedd yn ymwneud a'r problemau a drafodwyd yn yr ardaloedd yma.

Mae'r clerc wedi cysylltu a Cyngor Gwynedd I drefnu cyfarfod wyneb yn wyneb I drafod y materion yma.

**Cynghorydd Sir.**

Ddim yn bresennol.

**Ardal Ni 2035.**

Adroddodd Cyng Dixon ei fod wedi mynychu cyfarfod trafod syniadau yn ymwneud a’r prosiect hwn.Roedd y pynciau a drafodwyd yn cynnwys trafnidiaeth lleol, tai,yr amgylchedd,gwaith.

Bydd cynrhychiolwyr Cyngor Gwynedd yn casglu’r wybodaeth ac yn adrodd yn ol ar eu canfyddiadau.

**Materion ariannol.**

Cyson Banc: Medi 2022

| | |
|---|---|
| Yn y Banc ar ddechrau’r Mis: | £2723.60 |
| | |
| Derbyniwyd: | |
| Praesept | £1500.00 |
| Rhodd Matt Ward | £500.00 |
| | |
| Taliadau: | |
| Cyflog/Paye | £100.00 |
| Treuliau banc | £10.00 |
| Awdit mewnol | £192.00 |
| | |
| Yn y banc diwedd mis | £4421.58 |

Mae aelodau’r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg arianol y cyngor.

Cytynwyd dalu anfoneb o £107.00 Cyngor Gwynedd ar gyfer costau etholiad.

Mae’r clerc wedi gwneud cais am ad-daliad o £577.10 gan Cyngor Gwynedd ar gyfer costau cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus.

**Llythyrau& E.bost.**

Cais cwmpasu safle dadgomisiynu Trawwsfynydd NP5/73/287M.

Wedi derbyn a dosbarthu manylion am y cais hwn bu'r cynghorwyr yn trafod y mater yn helaeth yn ystod y cyfarfod.

Roedd y cyngor yn cael hi yn anodd deall y termau gwyddonol a thechnegol a ddefnyddiwyd yn y cais a theimlid y dylair ymgeiswyr gwrdd ar holl sefydliadau i egluro manylion i ymwneud a'r cais iddynt.

Byddai'r clerc yn anfon llythyr i adran cynllunio'r Parc yn cynnwys y dymuniad yma.

Bydd y clec hefyd yn cysylltu ar AC ar Cynghorydd Sir er mwyn hwyluso'r cais hon.

**"20MPH Rollout Programme"**

Mae'n ymddengos fod y ffordd A470 trwy bentref Ganllwyd wedi ei chynnwys yn y rhaglen hon. Bu'r cynghorwyr yn trafod y cynnig i ostwng y cyfyngiad cyflymder o fewn y pentref o 30 i 20 m.y.a ac ar ol trafodaeth am ddiogelwch ffyrdd,yr amgylchedd ac ati roeddynt o farn nad oedd angen newid y cyfyngiad cyflymder.

Clerc i gysylltu gyda Atkins hefo barn a dymuniad y cyngor.

**Biniau halen gaeaf 2023**.

Bydd Cyngor Gwynedd yn parhau i ail-lenwi'r biniau halen yn ystod y cyfnod hwn.

Os fydd angen llenwi'r biniau rhaid cysylltu gyda'r clerc gyda'r wybodaeth am y biniau a'i lleoliad.

**Unrhyw fater arall.**

Derbyniwyd gwybodaeth gan Cyng Edwards fod y gwteri ar Ffordd Ty Cerrig angen eu glanhau.

Clerc i gysylltu a'r cyngor.